



Aelod o Staff Mwyaf Ysbrydoledig

Aelod o staff sydd wedi gwneud eich profiad ym Mhrifysgol Caerdydd yn eithriadol oherwydd eu rhagolygon a gweithredoedd cadarnhaol.

- Gwneud ymdrech ychwanegol i ddarparu profiad sy'n cefnogi myfyrwyr.
- Does dim problem na ellir eu datrys!
- Rhagolwg ysbrydoledig ar fywyd a phrofiad y myfyrwyr.
- Aelod o staff sy'n frwdfrydig ac yn ysbrydoli myfyrwyr i weithio mewn partneriaeth â'r brifysgol.

Tiwtor Personol y Flwyddyn

Tiwtor personol sy'n cefnogi israddedigion neu ôl-raddedig a addysgir yn ystod eu hamser yn y brifysgol.

- Polisi 'drws agored' yn golygu eu bod ar gael pan fo angen.
- Sicrhau bod amser yn eu diwrnod i gefnogi myfyrwyr gan gynnwys ateb e-byst y tu hwnt i 9-5.
- Wedi gwneud rhywbeth ychwanegol at eu swydd er budd eu myfyrwr.
- Darparu gwasanaeth cyfeirio priodol i gefnogi gwasanaethau cymorth yn ogystal â bod yn rhagweithiol o ran datrys problemau sy'n wynebu myfyrwyr (lle y bo'n briodol).

Goruchwyliwr Doethurol Eithriadol

Goruchwyliwr Doethurol sy'n cefnogi Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig i gyflawni o fewn eu gwaith ymchwil, ysgrifennu eu gosodiad, a pharatoi ar gyfer eu Viva.

- Canfod cyfleoedd i ymchwilwyr i ddatblygu, dysgu ac ymchwilio.
- Gweithio'n ddiflino i roi enghraifft i ymchwilwyr.
- Annog a chefnogi'r myfyrwyr gyda'u traethodau.
- Cydnabod straen ymchwil ôl-raddedig, ystyried lles emosiynol a meddyliol eu myfyrwyr yn barhaus.

Gwobr Tiwtor neu Arddangoswr Graddedig

Yr Ymchwilydd Ôl-raddedig sydd, fel Tiwtor neu Arddangoswr Graddedig, wedi dysgu neu gefnogi myfyrwyr eraill i gyflawni. Mae'r wobr hon yn cydnabod ôl-raddedigion am eu cyfraniad i ddysgu o ansawdd ym Mhrifysgol Caerdydd?

- Dysgu neu arddangos mewn modd ymgysylltu a llawn gwybodaeth.
- Darparu adborth adeiladol a rhagori ar ddisgwyliadau myfyrwyr.
- Cyfoethogi profiad myfyrwyr israddedig drwy fynd y filltir ychwanegol.

Aelod o Staff Mwyaf Arloesol

Aelod staff sydd wedi ymgysylltu â myfyrwyr yn dysgu ac addysgu drwy amrywiaeth o ddulliau.

- Defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf (o Twitter i recordio darlithoedd).
- Defnyddio gofod dysgu corfforol yn llawn.
- Ddim yn darlithio, ond yn dysgu gan ddarparu modd dysgu rhyngweithiol sy'n ennyn diddordeb.
- Meithrin llais myfyrwyr yn ogystal â cefnogi myfyrwyr a staff sy'n gweithio gyda'i gilydd i greu atebion i broblemau.
- Ymgorffori sgiliau cyflogadwyedd yn y cwricwlwm.

Pencampwr Addysg Gymraeg

Gweithio i hyrwyddo'r Gymraeg drwy ddysgu ac addysgu.

- Darlithoedd yn dechrau a gorffen yn ddwyieithog.
- Darlithoedd cyfan yn cael eu cynnal yn Gymraeg, pan maent fel arfer yn Saesneg.
- Darparu seminarau, darlithoedd, neu gyfleoedd i ymgysylltu â'r diwylliant Cymraeg (nid drwy'r iaith yn unig).
- Yn enghraifft da ar gyfer Safonau'r Gymraeg yng Nghymru.

Cynrychiolydd y Flwyddyn (AHSS, BLS, and PSE)

Cynrychiolydd Academiaidd sydd wedi datblygu'n bersonol yn ogystal â chynrychioli eu myfyrwyr ar lefel

rhaglen, ysgol a choleg.

- Creu gwahanol ffyrdd o ymgysylltu â myfyrwyr ar eu cyrsiau ac o fewn eu hysgolion.
- Wedi bod yn eiriolwr cryf dros lais y myfyrwyr.
- Mynychu cynifer o sesiynau hyfforddi a chyfleoedd ag y gallant.
- Gweithio ar nifer o ymgyrchoedd ar draws y flwyddyn (o fewn eu ysgol, undeb y myfyrwyr a'r brifysgol ehangach).

Cydlynnydd Cynrychiolydd Myfyrwyr y flwyddyn

Cydlynnydd Cynrychiolydd Myfyrwyr sydd wedi llwyddo yn eu rôl yn ogystal â'u rôl fel Cydlynnydd Cynrychiolydd Myfyrwyr.

- Darparu adborth adeiladol i gynrychiolwyr.
- Gweithio'n agos gyda Thimau Llais Myfyrwyr ac Ymgysylltu Myfyrwyr.
- Creu a hyrwyddo cyfleoedd i fyfyrwyr i ymgysylltu a dysgu y tu allan i'r Panel Myfyrwyr Staff neu'r Bwrdd Astudiaeth.
- Maent o hyd â gwen ar eu hwyneb yn hwyluso llais myfyrwyr.
- Cefnogi'r broses o drosglwyddo cynrychiolwyr bob blwyddyn gan ddarparu amgylchedd sy'n annog cynrychiolaeth.

Arweinydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Aelod o staff neu fyfyrwr sydd wedi gweithio i leihau neu gael gwared ar rwystrau i gyfranogiad, yn ogystal â bod yn esiampl da ar gyfer ac o fewn grwpiau ymylol.

- Cynnal digwyddiadau neu chreu cyfleoedd am sgwrs, dadl neu gefnogaeth ar gyfer grwpiau ymylol.
- Gweithio gyda'r brifysgol neu undeb myfyrwyr i newid polisi neu arfer i greu amgylchedd mwy cynhwysol ym Mhrifysgol Caerdydd.
- Hyrwyddo gwerthoedd Prifysgol Caerdydd ac Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd.